PORTHI DRE

(Sefydliad Corfforedig Elusennol)

Adroddiad Anarchwiliedig a Datganiadau Ariannol

Blwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2026

Rhif Elusennol: 1200984

PORTHI DRE

Cynnwys	**Tudalen**
Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol	2
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	3 - 8
Adroddiad Arholwr Annibynnol	9
Datganiad o Weithredoedd Ariannol	10
Mantolen	11
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	12 - 23

PORTHI DRE

GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

YMDDIRIEDOLWYR

Dawn Lynne Jones
Olaf Cai Larsen (Cadeirydd)
Eleri Gwyn Lovgreen
Ceren Williams (Penodwyd 25/09/25)
Haydn Hughes (Penodwyd 25/09/25)

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Tŷ Seiont
Ffordd Santes Helen
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 2YD

MANYLION BANC

Lloyds Bank PLC
98 Victoria Street
LONDON
SW1E 5JL

CYFRIFWYR

W J Matthews a'i Fab
11-15 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB

PORTHI DRE

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol heb eu harchwilio ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) "Cyfrifyddiaeth ac Adrodd gan Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005 wrth baratoi adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen.

Cofrestrwyd yr elusen fel Sefydliad Corfforedig Elusennol ar yr 11eg Tachwedd 2022, gyda Rhif Elusennol: 1200984.

Pwerau Buddsoddi

O dan ddogfen gyfansoddiad y SCE, mae gan yr elusen y pŵer i wneud unrhyw fuddsoddiad y mae'r Ymddiriedolwyr yn ei ystyried yn addas.

Dull penodi Ymddiriedolwyr

Penodir Ymddiriedolwyr yn unol â chanllawiau'r Cyfansoddiad. Penodir pob Ymddiriedolwr newydd am gyfnod o dair blynedd trwy gynnig a basiwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Er mwyn gwasanaethu Porthi Dre yn effeithiol, wrth ddewis unigolion i'w penodi'n Ymddiriedolwyr elusen, rhaid ystyried eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad.

Amcanion yr Elusen er budd y cyhoedd

Prif amcanion yr elusen yw:

- Hyrwyddo neu fod o fudd i drigolion Caernarfon a'r gymdogaeth, heb wahaniaethu o ran rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil na safbwyntiau gwleidyddol, crefyddol neu eraill drwy gysylltu'r trigolion â'r awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol ac eraill mewn ymdrech gyffredin, darparu cyfleusterau er lles cymdeithasol ar gyfer hamdden ac amser hamdden gyda'r nod o wella amodau bywyd y trigolion.

- Er budd y cyhoedd, atal neu leddfu tlodi neu galedi ariannol yng Nghaernarfon a'r cyffiniau, drwy ddarparu bwyd ac eitemau hanfodol eraill i unigolion mewn angen. Er mwyn hyrwyddo'r amcanion hyn ond nid fel arall, bydd pŵer gan yr Ymddiriedolwyr i sefydlu neu sicrhau sefydliad canolfan gymunedol a chynnal neu reoli neu gydweithredu ag unrhyw awdurdod statudol i gynnal a rheoli canolfan o'r fath ar gyfer gweithgareddau a hyrwyddir gan yr elusen er mwyn hyrwyddo'r amcanion uchod.

Perthynas â phartïon â diddordeb

Mae'r elusen yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus partïon â diddordeb megis Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Heddlu Gogledd Cymru, Tai Gogledd Cymru, Adra, CIST Gwynedd, Mantell Gwynedd, yr NFU, HWB Caernarfon, Cyngor Tref Caernarfon, Y Loteri Genedlaethol, Menter Môn, Grŵp Cynefin, Cyngor Celfyddydau Cymru, Loteri Cod Post, *Comic Relief,* CGGC/WCVA, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Partneriaeth Bwyd Gwynedd, Gemau Stryd, Tesco, Atsain a Sefydliad Gwendoline a Margaret Davies.

Polisi ynghylch Cronfeydd

Mae'r elusen yn ddibynnol iawn ar gefnogaeth barhaus y rhai sydd â diddordeb. Prif amcan yr elusen yw sefydlu o leiaf sefyllfa adennill costau bob blwyddyn drwy gynhyrchu digon o arian o'i gweithgareddau arferol i dalu costau er mwyn cynyddu'r balans ar y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae ein polisi cronfeydd wrth gefn yn nodi y dylid cadw costau rhedeg yr elusen a chostau diswyddo staff gydag o leiaf 3 mis wrth gefn.

PORTHI DRE

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, ymlaen….

Adolygiad o Weithgareddau Ariannol
Mae'r flwyddyn wedi bod yn gyfnod o barhau i ddatblygu a chryfhau gwaith Porthi Dre, gan gadw golwg ofalus ar gynaliadwyedd ariannol yr elusen. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi parhau i gydweithio â'r staff i adolygu'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael, ac i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn ymateb i anghenion pobl Caernarfon.

Mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu elusennau a sefydliadau cymunedol yn golygu bod angen cynllunio'n ofalus, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chwilio am gyfleoedd i ddatblygu ffynonellau incwm a phartneriaethau - yn arbennig felly mewn amgylchiadau lle nad ydi rhai grantiau allweddol bellach ar gael. Bydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Bwrdd wrth edrych ymlaen, ochr yn ochr â'n hymrwymiad i gynnal gwasanaethau o ansawdd a chefnogi'r bobl sy'n dibynnu arnynt.

Hoffwn ddiolch i'r staff, y gwirfoddolwyr, ein partneriaid, aelodau'r Bwrdd a'm cyd-Ymddiriedolwyr am eu cyfraniad a'u hymrwymiad drwy gydol y flwyddyn.

Amcan
Hanfod gwaith Porthi Dre ydi mynd i'r afael â thlodi ac anghyfartaledd yng Nghaernarfon a'r cyffiniau. Mae Adroddiad Blynyddol yn gyfle i edrych yn ôl ac edrych ymlaen. Efallai mai'r ffordd orau o edrych yn ôl ydi defnyddio llinell amser:

Cerrig Milltir Porthi Dre Ebrill 2025 – Mawrth 2026

Ebrill 2025
Parhau i gynnal gweithgareddau craidd - Rhannu Sgran, Clwb Hwyl/Seiont/Clwb Pobl Ifanc am flwyddyn arall. Derbyn grant o £20,000 gan Gyngor Tref Caernarfon.
Parhau i dderbyn nawdd gan ddau gyflenwr bwyd lleol - Roberts of Portdinorwic yn rhoi digon o gig ar gyfer paratoi hyd at 200 o brydau yr wythnos a Castell Howell yn rhoi £200 o gredyd y mis i'n cyfrif.
Derbyn £34,880 o gronfa *Comic Relief* Grant Twf Sefydliadol 2025/26 - ar gyfer cyflogi Swyddog Ymchwil a Datblygu am flwyddyn o 1/7/2025.
Derbyn £25,000 o arian anghyfyngedig gan y Loteri Cod Post, ar gyfer cyllido ein prosiectau bwyd a chyfrannu at ein costau craidd. Bu hefyd yn gyfrwng i ni ddarparu prosiectau a helpodd i atal a lleihau effaith tlodi ymhlith trigolion lleol.
Derbyn cadarnhad bod Caban y Cofis wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn grant Cylchol. Gwion Roberts wedi sefydlu'r prosiect o fis Ebrill i fis Mehefin 2025
Daeth fan a staff Gwasanaeth Awdioleg GIG i Porthi Dre ar 14 Ebrill 2025 i gynnig gwasanaeth profi clyw a gwirio cymhorthion clyw.
Lansio 'Cofi Miwsig' - prosiect cerddoriaeth newydd, yn cynnig cyfle i bobl ifanc archwilio cerddoriaeth. Diolch i gefnogaeth gan Anthem Cymru a chynllun Atsain, sydd wedi'i gefnogi gan Youth Music a Loteri Cod Post y Bobl. Sesiynau wythnosol yn dechrau yn y Gwanwyn.

Mai 2025
Aelodau o'r Clwb Pobl Ifanc yn cael cyfle i greu ffilm fer am Porthi Dre dan arweiniad Owain Llyr, cwmni Gweledigaeth. Cafodd premiere y noson ei gynnal yn Stiwdios Aria, Llangefni, a chafodd y cyfranogwyr ifanc eu gwahodd i'r premiere. Gwnaed y cyfan yn bosib drwy grant gan adran Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau, Prifysgol Bangor ac Academi Sgrin Cymru.
Derbyn grant o £4,000 o gronfa Argyfwng Bwyd Cyngor Gwynedd, fel cyfraniad tuag at gostau bwyd ar gyfer Rhannu Sgran ddwywaith yr wythnos tan mis Mawrth 2026.

Mehefin 2025
Gwion Roberts yn cael ei benodi i arwain Caban y Cofis tan ddiwedd mis Mawrth 2026
Daeth Gwaith Gwynedd i Porthi Dre i gynnal sesiwn i gefnogi rhai sydd yn chwilio am waith ar 11 Mehefin 2025.
Trefnodd Porthi Dre noson i ddathlu ei wirfoddolwyr ar 16 Mehefin 2025.

PORTHI DRE

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, ymlaen....

Gorffennaf 2025
Derbyn £18,000 arian RIF - Hybiau Gwynedd.
Dechrau ail flwyddyn Grant Cronfa Ymateb i Argyfwng Costau Byw y Loteri Genedlaethol. Ariannu cynllun Rhannu Sgran am ddwy flynedd £42,000.
Penodi Cai Samuel Thomas yn Swyddog Ymchwil a Datblygu.
Derbyn £500 gan Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer creu gwaith celf penodol (Gwerthoedd Porthi Dre) gyda'r bobl ifanc.
Dechreuodd 'Gwynedd Digidol' ymweld â Porthi Dre gyda chefnogaeth ddigidol i bawb bob bore dydd Iau.

Awst 2025
Derbyn £5,000 gan Sefydliad Gwendoline a Margaret Davies, i gynnal Cofis Creadigol am flwyddyn.
Derbyn grant o £1,600 gan Bartneriaeth Bwyd Gwynedd ar gyfer cynnal Clwb Brecwast Teulu bob dydd Mawrth a dydd Gwener yn ystod gwyliau'r Haf.
Derbyn £450 gan Hwb Caernarfon i fynd â phobl ifanc i ddringo sawl gwaith yn ystod gwyliau'r Haf.
Derbyn rhodd o gacennau gan 'Always Aim High' ac fe'u dosbarthwyd dan y cynllun Rhannu'n Deg.

Medi 2025
Derbyn £2,000 gan Heddlu Gogledd Cymru i gynnal te ar ôl ysgol i bobl ifanc rhwng 11 - 16.
Derbyn £4,000 o gronfa Croeso Cynnes, Cyngor Gwynedd ar gyfer cynnal Caffi Rhannu'n Deg bob prynhawn Mercher.
Nader Kohbodi a chriw Porthi Dre yn cael gwahoddiad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru i arddangos eu darn "Dim Celf Gymreig".
Hysbysebu swydd newydd "Swyddog Ieuenctid" - swydd 10 awr.

Hydref 2025
Cais llwyddiannus am £15,000 o gronfa Celf Iechyd a Lles, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Bydd yr arian yn caniatáu i ni gynnal peilot ar weithgareddau celf presgripsiwn cymdeithasol, gan gydweithio gyda Meddygfeydd lleol yn ardal Caernarfon.
Derbyn cynnig o £6,000 o gronfa Cist Gwynedd ar gyfer creu cynllun busnes, mentora staff a pharatoi dogfennau i'r gwaith ymgysylltu gyda'r cyhoedd, parthed cais y Loteri.

Tachwedd 2025
Derbyn £2,470 o gronfa Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd - Mantell Gwynedd, i gynnal sesiynau Ffrindiau Ffabrig. Derbyn cadarnhau bod £20,000 ar gael i Hybiau Cymunedol o gronfa SPF.
Cynnal gweithdy i Rieni a Gofalwyr yng Nghonwy a Gwynedd gyda'r elusen "Cyswllt Teulu" ar 6ed Tachwedd 2025.

Rhagfyr 2025
Derbyn £1,000 gan Groundworks Tesco, tuag at gynnal sesiynau celf pobl ifanc.
Cynnal Cinio Dolig bod dydd am wythnos cyn y Nadolig a derbyn cyfraniad gan Bartneriaeth Bwyd Gwynedd tuag at yr wythnos.
Derbyn £9,600 o roddion caredig iawn gan sawl cwmni ac unigolyn yn ystod yr wythnosau yn arwain at y Nadolig


Ionawr 2026
Derbyn £5,000 o gyllid gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC) Gogledd Cymru, cynllun *Innovate to Grow* Andy Dunbobbin, i ehangu ein gwaith gyda Pobl Ifanc. Ymwelodd y PCC ar 21 Ionawr i ddysgu mwy am waith gwerthfawr yr elusen yn y gymuned ac i weld sut mae'r cyllid wedi helpu i gyflogi Swyddog Ieuenctid rhan-amser i helpu lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) yn y dref.
Penodwyd Iwan Bohana yn Swyddog Ieuenctid.
Cafodd gweithgareddau penwythnos eu cynnal ar gyfer gofalwyr di-dal ar ddydd Sul 18 a 25 Ionawr, sesiwn Coed a Celf.

PORTHI DRE

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, ymlaen….

Chwefror 2026
Derbyn £4,000 gan Gyngor Gwynedd – o'r Gronfa Diwyllesiant - ar gyfer cynnal gweithgareddau celf i oedolion.
Derbyn £4,000 gan Gemau Stryd - grant ar gyfer gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol i bobl ifanc, *Fit and Fed* gan Sefydliad Pears.
Derbyn cyfraniad o £2,000 gan adran Ieuenctid Cyngor Gwynedd ar gyfer gweithgareddau celf a cherdd.
Derbyn nawdd gan Hwb Caernarfon i gynnal Clwb Pobl Ifanc 2026/27.
Derbyn grant o £500 gan Hwb Caernarfon i adnewyddu goleuadau yn y swyddfeydd.
Trefnwyd Diwrnod Cyn-Filwyr gan Liz Saville Roberts (AS) yn Porthi Dre, gyda chymorth gwirfoddolwyr PD. Mae hyn wedi arwain at gynnal brecwast i gyn-filwyr unwaith y mis.
Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cyfarfod unwaith y mis yn Porthi Dre.
Lansio prosiect Cymuned Greadigol gyda sesiynau celf, cerddoriaeth ac ysgrifennu creadigol niferus.
Trefnwyd y rhain gyda Chanolfan Gerdd William Mathias, Carn a Chyngor Celfyddydau Cymru, ac fe'u hariannwyd gan y Loteri.

Mawrth 2026
Cynnal cinio dydd Sul ar Fawrth 1af i'r holl wirfoddolwyr, i ddiolch iddynt am eu hamser a'u hymroddiad i Porthi Dre.
Derbyn Grant o £28,000 gan Gymorth Tai, Cyngor Gwynedd tuag at waith Porthi Dre yn cefnogi pobl ddigartref ac atal digartrefedd.
Llwyddo i gael grant gan Brif Grant Gwirfoddoli yng Nghymru ar gyfer cyflogi Swyddog Gwirfoddolwyr am 21 mis o'r 1af Gorffennaf 2026.



Personél
Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu'r ffeithiau a'r ystadegau y tu ôl i Porthi Dre, ond ni fyddai unrhyw fenter yn llwyddo heb ymroddiad y staff a'r gwirfoddolwyr sydd yn ei chefnogi. Felly pwy yw pwy?

Staff
Anne Evans – Prif Swyddog. Mae cefndir Anne mewn cyllid, gan ymuno â'r fenter ar y cychwyn cyntaf fel gwirfoddolwr gan gadw llygad ar bob mater ariannol. Pan ddaeth swydd y Prif Swyddog yn wag, camodd Anne i mewn, ac mae hi bellach yn gweithio 32 awr yr wythnos i'r Elusen.
Cai Thomas – Cydlynydd Gweithgareddau hyd at 30/06/25. O 1/07/25, penodwyd Cai yn Swyddog Ymchwil a Datblygu. Mae gan Cai radd meistr mewn Cerddoriaeth a Diwylliannau Clyweledol ac mae ganddo brofiad o fentrau cymunedol trwy ei waith gyda Chanolfan Gerdd William Mathias yng Nghaernarfon.

PORTHI DRE

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, ymlaen....

Geraint Thomas – Cogydd
Mae gan Geraint brofiad helaeth o weithio fel cogydd, gan gynnwys cefndir fel Swyddog Coedwigaeth a Chefn Gwlad. Mae bellach yn gweithio 26 awr yr wythnos yn coginio prydau maethlon i gymuned Caernarfon a'r Cylch.
Gwion Roberts – Cogydd Cynorthwyol a Chydlynydd Caban y Cofis o 01/02/25.
Mae gan Gwion radd meistr mewn Hanes ac mae ganddo brofiad o fentrau cymunedol trwy ei waith yn Yr Orsaf, Pen-y-groes.
Iwan Wyn Bohana – Swyddog Ieuenctid rhan-amser. Mae gan Iwan radd anrhydedd mewn Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Gorfforol ac mae ganddo brofiad o weithio gyda Phobl Ifanc gyda GISDA.
Iwan Huw Roberts – Gweinyddwr Adnoddau Dynol (dros-dro), rhan-amser

Gwirfoddolwyr
Erbyn hyn mae gennym dros hanner cant o wirfoddolwyr parod, o bob oed a chefndir, yn helpu'r staff i gyflawni nodau ac amcanion Porthi Dre. Y gwirfoddolwyr yw ein hased mwyaf gwerthfawr, ac mae eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi yn fawr.

Bwrdd Rheoli
Yn llywio popeth mae Bwrdd Rheoli ymroddedig, ac aelodau'r Bwrdd yw: Dawn Lynne Jones (Ymddiriedolwr), Cai Larsen (Ymddiriedolwr), Eleri Lovgreen (Ymddiriedolwr), Haydn Hughes (Ymddiriedolwr), Susan Waters, Alun Wyn Jones (gadael 25/9/2025), Dr Nia Huws (gadael 25/9/2026), Ceren Williams (Ymddiriedolwr - ymuno 14/4/2025), Catherine Young (ymuno 14/4/2025), Janet Patterson (ymuno 14/4/2025), Ioan Thomas (Sylwedydd, gadael 17/6/2025) gyda Maria Sarnacki yn sylwedydd (ymuno 17/6/2025)

Cydnabyddiaethau

Noddwyr
Ni fyddai unrhyw Adroddiad yn gyflawn heb ddiolch, ac mae Porthi Dre yn diolch o waelod ei galon am gefnogaeth y gwahanol sefydliadau o bob sector - y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector – sydd yn llogi lle yn adeilad Porthi Dre. Yn gyfnewid am eu cefnogaeth, maent yn cael cacennau cartref ffres a phaned o de i'w cynnal!

Cyflenwyr
Mae Porthi Dre yn ffodus iawn i gael cefnogaeth cyflenwyr lleol, Roberts of Port Dinorwic Ltd a Castell Howell, sy'n rhannu'r un nodau ac amcanion. Drwy fanteisio ar haelioni cyflenwyr lleol, rydym yn sicrhau, cyn belled ag y gallwn, ein bod yn cadw'r bunt yn lleol.

Adolygiad o'r prif risgiau
Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod rheoli risg yn rhan ganolog o'u cyfrifoldeb dros gynnal Porthi Dre a diogelu ei ddyfodol. Mae'r prif risgiau'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol yr elusen, parhad cefnogaeth a chyllid gan bartneriaid, y gallu i recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr, a sicrhau bod trefniadau llywodraethu, diogelu a rheolaeth fewnol yn parhau'n gadarn.

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r risgiau hyn yn rheolaidd ac yn ystyried y camau sydd eu hangen i'w lliniaru. Mae hyn yn cynnwys monitro'r sefyllfa ariannol, cynnal perthynas agos â chyllidwyr a phartneriaid, sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol mewn lle, a chynllunio ar gyfer anghenion yr elusen yn y tymor hwy.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i roi sylw arbennig i'r cydbwysedd rhwng cynnal a datblygu gwasanaethau a sicrhau bod gan yr elusen yr adnoddau a'r capasiti i'w darparu'n ddiogel ac yn gynaliadwy.

PORTHI DRE

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, ymlaen….

Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr mewn perthynas â'r datganiadau ariannol
Mae Ymddiriedolwyr yr elusen yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr a datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sydd yn berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr elusen baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion yr elusen ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau gan yr elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau perthnasol;
- gwneud barn ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol ac yn ddoeth;
- nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, y Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) perthnasol, a darpariaethau'r weithred Ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a chymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb yr elusen a'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei chynnwys ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Adroddiad wedi ei gymeradwyo:

Olaf Cai Larsen (Cadeirydd)

Dyddiad: 13eg Hydref 2026

ADRODDIAD ARHOLWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR PORTHI DRE

Adroddiad yr arholwr annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Porthi Dre

Adroddaf i'r Ymddiriedolwyr ar fy arholiad o gyfrifon Ymddiriedolaeth Porthi Dre (yr Ymddiriedolaeth) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, sydd wedi'u nodi ar dudalennau 2 i 19.

Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel Ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Adroddaf mewn perthynas â'm harholiad o gyfrifon yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy arholiad rwyf wedi dilyn yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr arholwr annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy arholiad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r arholiad gan roi achos i mi gredu mewn unrhyw ffordd berthnasol:

(1) na chadwyd cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu

(2) nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu

(3) nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys ynghylch ffurf a chynnwys cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg' nad yw'n ystyried y mater fel rhan o arholiad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r arholiad y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

David Chidley
WJ Matthews a'i Fab
Cyfrifwyr Siartredig
11-15 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB

Dyddiad: 13eg Hydref 2026

PORTHI DRE

Datganiad o Weithredoedd Ariannol *am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026*

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	31 Mawrth 2026	31 Mawrth 2025
			£	£	£
Incwm					
Rhoddion a chymynroddion		12,139	2,775	14,914	7,417
Gweithgareddau elusennol	*3*	111,698	166,643	278,341	192,910
Incwm buddsoddiadol	*4*	19,372	-	19,372	19,485
Cyfanswm		143,209	169,418	312,627	219,812
Gwariant ar:					
Gweithgareddau elusennol	5	135,943	129,469	265,412	175,582
Cyfanswm gwariant am y flwyddyn		135,943	129,469	265,412	175,582
Incwm net am y flwyddyn		7,266	39,949	47,215	44,230
Balans ar 1af Ebrill 2025		128,582	23,240	151,822	107,592
Balans ar 31 Mawrth 2026		£135,848	£63,189	£199,037	£151,822

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio o weithgareddau sydd yn parhau. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod.

PORTHI DRE

Mantolen ar 31 Mawrth 2026

	Nodyn		2026 £		2025 £
Asedau sefydlog					
Asedau sefydlog dirweddol	*9*		18,287		30,388
Asedau Cyfredol					
Dyledwyr	*10*	36,972		3,823	
Arian yn y banc ac mewn llaw		155,556		123,900	
		192,528		127,723	
Credydwyr: *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn*	*11*	(11,778)		(6,289)	
Asedau Cyfredol Net			180,750		121,434
Asedau Net			£199,037		£151,822
Cronfeydd					
Cronfa Anghyfyngedig	*15*		135,848		128,582
Cronfa Gyfyngedig	*15*		63,189		23,240
			£199,037		£151,822

Olaf Cai Larsen (Ymddiriedolwr)

Dawn Lynne Jones (Ymddiriedolwr)

Dyddiad: 13eg Hydref 2026

PORTHI DRE

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y cyfnod i'r 31 Mawrth 2026*

1. Polisïau cyfrifyddol

a) Confensiwn cyfrifo

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi eu paratoi i gydymffurfio gyda Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer Cymeradwy sydd yn berthnasol i elusennau sydd yn paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (effeithiol 1 Ionawr 2015) – (SORP Elusennau (FRS102)) a'r Safon Adrodd Ariannol sydd yn berthynol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a Deddf Elusennau 2011.

Mae Porthi Dre yn cyfarfod â'r diffiniad endid "Budd i'r cyhoedd" dan FRS102. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod yn gyntaf dan gost hanesyddol neu werth trafodion oni bai eu bod wedi cael eu datgan yn wahanol yn y polisïau cyfrifo perthnasol.

b) Cwblhau cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw amheuaeth na ellir cwblhau'r cyfrifon dan sail busnes gweithredol.

c) Statws Elusennol

Wedi dirwyn i ben neu ddiddymu Porthi Dre, os bydd unrhyw eiddo o gwbl yn weddill ar ôl talu ei holl ddyledion ac ymrwymiadau, ni chaniateir dosbarthu hwnnw ymhlith yr aelodau, ond fe'i rhoddir neu fe'i trosglwyddir i ryw sefydliad arall a bennir gan yr Ymddiriedolwyr ar yr adeg y daw yr elusen i ben, sydd ag amcanion tebyg i rai yr elusen.

ch) Cyfrifo Cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd yn barod i'w defnyddio gan yr Ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu penodi at unrhyw bwrpas arall. Cronfeydd penodedig yw cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi eu clustnodi tuag at gostau penodol

Cronfeydd penodedig yw cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi cael eu gosod o'r neilltu gan yr Ymddiriedolwyr at ddibenion penodol.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan gyfranwyr neu sydd wedi cael eu codi gan yr elusen at ddiben arbennig. Mae'r gost o godi a gweinyddu cronfeydd o'r fath yn cael eu codi yn erbyn y gronfa benodol honno.

d) Adnoddau Cyllid

Dangosir adnoddau cyllid yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm a gellir mesur y swm yn rhesymol fanwl. Cyfrifir am grantiau yn y cyfnod maent yn perthyn.

Mae adnoddau a dderbynnir gan roddwr sydd wedi gosod amodau ar ddefnydd o'r incwm ac yn nodi'r cyfnod amser gall yr incwm gael ei ddefnyddio i'w drin fel incwm gohiriedig i'w ryddhau i'r Datganiad o Weithredoedd Ariannol pan fydd y gosodiadau amod wedi eu bodloni.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Mawrth 2026 (Ymlaen)*

dd) Adnoddau a ddefnyddiwyd

Cyfrifir yr holl wariant ar sail croniant ac maent wedi eu dosbarthu dan benawdau sydd yn cyfuno'r holl gostau sydd yn berthynol i'r pennawd. Cost cynhyrchu cronfa yw'r costau sydd yn ymwneud â phrynu offer cyfrifiadurol a hefyd costau tendro am waith arolygu. Cost gweithgareddau elusennol yw'r costau sy'n ymwneud â gwariant ar amcanion yr elusen boed yn gost uniongyrchol neu gost cynorthwyol. Costau llywodraethu yw'r costau a godwyd mewn cysylltiad â gweinyddu yr elusen ac i gydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol.

e) Asedau dirweddol sefydlog a dibrisiant

Mae asedau sefydlog gwerth mwy na £1,000 yn cael eu cyfalafu a'u cynnwys ar gost gan gynnwys unrhyw gostau atodol o gaffael. Dangosir y buddiannau sefydlog ar gost neu brisiad llai dibrisiant. Cyfrifwyd am ddibrisiant ar sail dileu cost y buddiannau dros gyfnod amcangyfrif o'u hoes fel a ganlyn:

Offer	25%

2. Trosiant

Mae'r trosiant i gyd yn deillio o weithgareddau cyffredinol yr elusen. Digwydd y cyfan o'r trosiant o fewn y Deyrnas Unedig.

3. Incwm Gwirfoddol	**Anghyf. £**	**Cyfyng. £**	**2026 £**	**2025 £**
Gweithgareddau codi arian	-	-	-	1,005
Grant Arfor – WAG	-	-	-	28,070
Comic Relief – WCVA	-	31,392	31,392	-
Grant Gwirfoddolwyr Cymru – WCVA	-	29,160	29,160	-
Cyngor Celfyddydau ACW Loteri	-	13,500	13,500	-
Loteri Genedlaethol – Cronfa Gymunedol	-	21,617	21,617	15,773
Grant Côd Post Loteri	25,000	-	25,000	-
Cyngor Gwynedd - Prosiect Grant Bwyd	-	3,988	3,988	1,360
Cyngor Gwynedd - Grant Darpariaeth Pobl Ifanc	-	2,000	2,000	2,500
Cyngor Gwynedd – Adran Economi (Hyfforddiant)	-	300	300	-
Cyngor Gwynedd - Grant Cymorth Costau Byw	-	-	-	900
Cyngor Gwynedd - Grant Cymorth Mislif	-	-	-	800
Grant Grymuso Gwynedd – Menter Môn	-	-	-	9,412
Grant Hwb Caernarfon	-	7,110	7,110	-
Cyngor Gwynedd - Grant Cynnal Tai	28,698	-	28,698	28,341
Cyngor Gwynedd – Grant Cymorth Hwb RIF	18,000	-	18,000	20,000
Heddlu Gogledd Cymru	-	2,500	2,500	400
Grant Comisiynydd Heddlu a Troseddau Gog Cymru	-	4,790	4,790	5,000
Grant Adra - Cronfa Buddsoddi Cymunedol	-	-	-	1,000
Grant Rhannu Cronfa Ffyniant Llywodraeth y DU	20,000	-	20,000	16,610
Menter Môn Cylchol	-	11,892	11,892	14,088
Llywodraeth y DU – Grant SPF– Lluosi	-	-	-	20,675
Cyngor Gwynedd – Grant Croeso Cynnes	-	3,964	3,964	3,000
CIST Gwynedd - Cist Gymunedol Gwynedd	-	6,000	6,000	-
Cyngor Tref Caernarfon	20,000	-	20,000	20,000
Grant Atsain	-	7,500	7,500	-
Grant Diwyllesiant	-	4,750	4,750	-
Mantell Gwynedd – Gwirfoddolwyr Ifanc	-	2,620	2,620	-
Sefydliad Gwendoline a Margaret Davies	-	5,000	5,000	-
Cyfanswm ymlaen	111,698	158,083	269,781	188,934

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Mawrth 2026 (Ymlaen)*

3. **Incwm Gwirfoddol ymlaen**	Anghyf. £	Cyfyng. £	2026 £	2025 £
Ymlaen	111,698	158,083	269,781	188,934
Street Games - Grant Fit & Fed	-	4,000	4,000	-
Menter Môn – Partneriaid Bwyd Gwynedd	-	3,560	3,560	-
Cyngor Gwynedd - Grant Degwm	-	-	-	2,976
Grŵp Cynefin	-	-	-	500
Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain	-	-	-	500
Groundworks Tesco	-	1,000	1,000	-
	£111,698	£166,643	£278,341	£192,910

4. **Incwm Buddsoddiadau**	Anghyf.	Cyfyng. £	2026 £	2025 £
Incwm rhent	17,628	-	17,628	19,845
Llog banc	1,744	-	1,744	-
	£19,372	£-	£19,372	£19,845

5. **Cost gweithgareddau elusennol**	Anghyf. £	Cyfyng. £	2026 £	2025 £
Cyflogau	67,680	60,565	128,245	71,310
Gweithgareddau cymorth i fuddiolwyr	50	34,082	34,132	18,533
Gwres a goleuo	7,215	999	8,214	9,767
Atgyweirio a chynnal a chadw	1,380	1,916	3,296	10,124
Rheoli pla	330	-	330	330
Costau ffôn	970	185	1,155	1,158
Trethi dŵr	736	140	876	1,151
Casglu gwastraff	614	216	830	763
Rhent	10,799	9,391	20,190	19,101
Yswiriant	4,400	1,007	5,407	3,680
Costau bwyd	1,119	11,075	12,194	7,301
Glanhau	8,390	-	8,390	3,143
Cogydd	-	-	-	683
	103,683	119,576	223,259	147,044
Costau cynnal (Nodyn 6)	29,240	9,893	39,133	25,732
Costau llywodraethu (Nodyn 7)	3,020	-	3,020	2,806
	£135,943	£129,469	£265,412	£175,582

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Mawrth 2026 (Ymlaen)*

		Anghyf. £	Cyfyng. £	2026 £	2025 £
6.	**Costau Cynorthwyol**				
	Post, argraffu a deunydd ysgrifennu	951	118	1,069	517
	Gwasanaeth Adnoddau Dynol	1,468	-	1,468	-
	Ffioedd proffesiynol	-	6,000	6,000	-
	Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch	5,400	-	5,400	-
	Nwyddau traul a phecynnu	-	-	-	383
	Gweithdy a digwyddiadau	4,016	344	4,360	4,350
	Costau gwefan a chyfrifiaduron	646	165	811	1,852
	Codi arian	-	-	-	901
	Trwyddedau	1,305	-	1,305	1,019
	HWB Caernarfon	296	-	296	296
	Costau cludiant ac amrywiol	427	-	427	359
	Costau banc	205	-	205	108
	Costau hyfforddi staff a recriwtio	268	772	1,040	750
	Costau PPE	-	-	-	488
	Hysbysebu	676	411	1,087	195
	Costau gwirfoddolwyr	828	-	828	362
	Dibrisiant	12,754	2,083	14,837	14,152
		£29,240	£9,893	£39,133	£25,732

		Anghyf. £	Cyfyng. £	2026 £	2025 £
7.	**Llywodraethu**				
	Cost Cyfrifo	3,020	-	3,020	2,806
		£3,020	£-	£3,020	£2,806

8. Cost staff ac Ymddiriedolwyr

	2026 £	2025 £
Cyflogau	121,597	69,394
Yswiriant Cenedlaethol	3,706	448
Cyfraniadau pensiwn cyflogwyr	2,942	1,468
	£128,245	£71,310

Yn ystod y cyfnod y nifer aelod staff llawn amser cyfartalog oedd 5 (2025 – 3). Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod personél rheoli allweddol yr elusen yn cynnwys yr Ymddiriedolwyr a'r Cydlynydd. Cyfanswm cost cyflogaeth (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr) y personél rheoli allweddol am y flwyddyn oedd £36,507(2025 - £24,809). Nid oes unrhyw aelod o'r gyflogres yn ennill mwy na £60,000 y flwyddyn.

Ni dderbyniwyd cydnabyddiaeth gan unrhyw Ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn. Nid addalwyd arian am gostau i'r Ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn (2025 – £1,580).

9. Asedau Sefydlog

	Offer £
Cost neu brisiad	
Ar 1 Ebrill 2025	56,609
Ychwanegiadau	2,736
Ar 31ain Mawrth 2026	£59,345
Dibrisiant	
Ar 1 Ebrill 2025	26,221
Cost am y flwyddyn	14,837
Ar 31 Mawrth 2026	£41,058
Gwerth Llyfr Net	
Ar 31 Mawrth 2025	£30,388
Ar 31 Mawrth 2026	£18,287

10. Dyledwyr

	2026 £	**2025** £
Dyledwyr rhent	3,400	2,545
Dyledwyr eraill	32,199	-
Blaendaliadau	1,373	1,278
	£36,972	£3,823

11. Credydwyr: *symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn*

	2026 £	**2025** £
Croniadau	11,778	6,289
	£11,778	£6,289

12. Treth Gorfforaeth

Mae gan Porthi Dre statws elusennol ac felly nid oes Treth Gorfforaeth yn daladwy.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Mawrth 2026 (Ymlaen)*

13. Trafodion gyda Chyrff Cyhoeddus a phartïon eraill â diddordeb

Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd incwm gan y canlynol:

	2026 £	2025 £
Llywodraeth Cymru	41,410	28,070
Cyngor Gwynedd – grantiau amrywiol	56,950	56,877
Llywodraeth Prydain		20,675
Menter Môn	11,892	23,012
Cyngor Tref Caernarfon	20,000	20,000
Loteri Genedlaethol - Cronfa Gymunedol	21,617	15,773
Comic Relief	31,392	-
Loteri Genedlaethol – Cyngor Celfyddydau	13,500	-
HWB Caernarfon	7,110	-
Heddlu Gogledd Cymru	7,290	5,400
Adra	-	1,000
Cronfa Ffyniant Gyffredin (Llywodraeth y DU)	20,000	16,610
Mantell Gwynedd	2,620	3,000
CIST Gwynedd / Cist Gymunedol Gwynedd	6,000	-
Sefydliad Gwendoline a Margaret Davies	5,000	-

14. Parti Rheoli

Rheolir y sefydliad gan yr Ymddiriedolwyr.

15. Datganiad Cronfeydd

	1 Ebrill 2025	Incwm £	Gwariant £	31 Mawrth 2026 £
Cronfeydd Anghyfyngedig				
Cronfa gyffredinol	128,582	143,209	(135,943)	135,848
Cronfeydd Cyfyngedig				
Rhoddion	-	2,775	-	2,775
Grant Cymorth Costau Byw	2,199	-	(1,816)	383
Grant Cymorth Mislif	415	-	-	415
Grant Cyfalaf Arfor – WAG	3,731	-	(1,242)	2,489
Comic Relief – WCVA	-	31,392	(23,968)	7,424
Grant Gwirfoddolwyr Cymru – WCVA	-	29,160	-	29,160
Cyngor Celfyddydau ACW Loteri	-	13,500	(7,755)	5,745
Loteri Genedlaethol - Cronfa Gymunedol	221	21,617	(21,434)	404
Cyngor Gwynedd – Grant Project Bwyd	-	3,988	(3,988)	-
Cyngor Gwynedd - Grant Darpariaeth Pobl Ifanc	-	2,000	(2,000)	-
Grant Adran Economi Cyngor Gwynedd		300	(300)	-
Grant Hwb Caernarfon	-	7,110	(950)	6,160
Grant Grymuso Gwynedd – Cyfalaf	2,519	-	(840)	1,679
Heddlu Gogledd Cymru	-	2,500	(2,500)	-
Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gog Cymru		4,790	(2,177)	2,613
Adra – Cronfa Buddsoddi Cymunedol	555	-	(555)	-
Menter Môn Cylchol	13.600	11,892	(25,492)	-
Cyngor Gwynedd – Grant Croeso Cynnes	-	3,964	(3,964)	-
Cyfanswm ymlaen	23,240	134,988	(98,981)	59,247

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Mawrth 2026 (Ymlaen)*

15. Datganiad Cronfeydd ymlaen

	1 Ebrill 2025	Incwm	Gwariant	31 Mawrth 2026
		£	£	£
Ymlaen	23,240	134,988	(98,981)	59,247
CIST Gwynedd	-	6,000	(6,000)	-
Grant Atsain	-	7,500	(7,170)	330
Grant Diwyllesiant	-	4,750	(4,750)	-
Mantell Gwynedd – Gwirfoddolwyr Ifanc	-	2,620	(2,620)	-
Sefydliad Gwendoline a Margaret Davies	-	5,000	(5,000)	-
Street Games - Grant Fit & Fed	-	4,000	(388)	3,612
Menter Môn – Partneriaid Bywyd	-	3,560	(3,560)	-
Groundworks Tesco	-	1,000	(1,000)	-
	23,240	169,418	(129,469)	63,189
Cyfanswm	**£151,822**	**£312,627**	**(£265,412)**	**£199,037**

	Asedau Sefydlol	Asedau Cyfredol	Credydwyr Cyfredol	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cronfeydd Anghyfyngedig:				
Cronfa Gyffredinol ar 31ain Mawrth 2026	£14,119	£133,507	(£11,778)	£135,848
Cronfeydd Cyfyngedig:				
Rhoddion	-	2,775	-	2,775
Grant Cymorth Costau Byw	-	383	-	383
Grant Cymorth Mislif	-	415	-	415
Grant Cyfalaf Arfor – WAG	2,489	-	-	2,489
Comic Relief – WCVA	-	7,424	-	7,424
Grant Gwirfoddolwyr Cymru – WCVA	-	29,160	-	29,160
Cyngor Celfyddydau ACW Loteri	-	5,745	-	5,745
Loteri Genedlaethol- Cronfa Gymunedol	-	404	-	404
Grant Hwb Caernarfon	-	6,160	-	6,160
Grant Grymuso Gwynedd – Cyfalaf	1,679	-	-	1,679
Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gog Cymru	-	2,613	-	2,613
Grant Atsain	-	330	-	330
Street Games - Grant Fit & Fed	-	3,612	-	3,612
Cronfeydd Cyfyngedig ar 31ain Mawrth 2026	£4,168	£59,021	£-	£63,189

Defnyddir y gronfa anghyfyngedig i hyrwyddo gweithgareddau'r elusen.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Mawrth 2026 (Ymlaen)*

15. Datganiad Cronfeydd ymlaen

Cronfeydd Cyfyngedig:

Grant Cymorth Costau Byw
Mae'r rhain yn arian a dderbynnir trwy Adran Iechyd a Lles Oedolion Cyngor Gwynedd i ddarparu talebau bwyd a thanwydd i gefnogi a helpu trigolion gyda heriau costau byw.

Grant Cefnogi Mislif
Mae'r rhain yn gronfeydd a dderbynnir trwy Adran Iechyd a Lles Oedolion Cyngor Gwynedd i ddarparu cynnyrch mislif i gefnogi a helpu trigolion gyda heriau costau byw.

Grant Adra
Mae'r cyllid cyfyngedig o £1,000 ar gyfer cynnal gweithgareddau cadw'n ffit i bobl hŷn yn ystod Clwb Seiont. Mae'r arian am flwyddyn o Gorffennaf 2024. O ganlyniad, mae £555 ar ôl i'w ddefnyddio rhwng Ebrill a Mehefin 2025. Mae'r gweddill wedi ei gynnwys yng nghostau gweithgareddau'r elusen. Wedi dod i ben.

Grant Cronfa Gymunedol Loteri Genedlaethol
Mae'r cyllid cyfyngedig o £21,617 ar gyfer cynnal cynllun Rhannu Sgran. Cynllun dwy flynedd yw hwn, gyda £5,000 i ddod yn 2026/27.

Grant Cynllun Bwyd Cyngor Gwynedd
Mae'r cyllid cyfyngedig o £3,989 ar gyfer holl gynlluniau bwyd Porthi Dre. Mae'r gwariant i gyd o dan gost gweithgareddau elusennol.

Grant Cylchol Menter Môn
Derbyniwyd £11,892 o gyllid cyfyngedig gan Menter Môn tuag at Gynllun Caban y Cofis. Mae'r arian i'w ddefnyddio i gynnal y cynllun o Ebrill 2025 i Mawrth 2026.

Grant Arfor Llywodraeth Cymru
Mae'r cyllid cyfyngedig o £28,070 tuag at gyfraniad cyflogau a chael llawr newydd i'r dderbynfa a'r ystafell fwyta. Mae'r gyfran o £4,974 am y llawr wedi'i gynnwys gyda'r asedau sefydlog a bydd yn cael ei ddibrisio dros 4 mlynedd. Mae £23,096 wedi'i gynnwys yn y cyflogau – costau gweithgareddau elusennol. Cynllun yma wedi dod i ben 31/3/25.

Grant Grymuso Gwynedd - Menter Môn
Mae'r cyllid cyfyngedig o £9,412 gan Menter Môn wedi'i rannu yn £4,498 ar gyfer prynu stof, rhewgell a *Bain Marie* sydd wedi cael eu cynnwys yn yr asedau sefydlog, a byddant yn cael eu dibrisio dros 4 mlynedd. Mae'r gweddill o £4,914 ar gyfer adnewyddu ac atgyweirio offer cegin ac mae'n ymddangos yng nghostau gweithgareddau'r elusen. Cronfa yma wedi dod i ben 31/3/25.

Hwb Menter - Menter Môn
Mae'r cyllid cyfyngedig o £488 wedi ei ddynodi ar gyfer prynu dillad PPE i griw Caban y Cofis ac mae'n ymddangos yng nghostau cefnogaeth yr elusen. Cronfa yma wedi dod i ben 31/3/25.

Grant Degwm - Cyngor Gwynedd
Derbyniwyd £3,000 o gyllid cyfyngedig ar gyfer cynnal adloniant Clwb Hwyl. Mae'r £3,000 yn ymddangos yng nghostau gweithgareddau'r elusen. Cronfa yma wedi dod i ben 31/3/25.

Grwp Cynefin
Derbyniwyd £500 o gyllid cyfyngedig gan Grŵp Cynefin ar gyfer cynnal 5 gweithgaredd cinio Nadolig i drigolion Caernarfon a'r cylch. Mae'r £500 yn ymddangos yng nghostau gweithgareddau'r elusen. Cronfa yma wedi dod i ben 31/3/25.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Mawrth 2026 (Ymlaen)*

15. Datganiad Cronfeydd ymlaen

Croeso Cynnes Cyngor Gwynedd
Derbyniwyd £3,964 o gyllid cyfyngedig ar gyfer cynnal Caffi Rhannu'n Deg drwy'r gaeaf. Mae'r £3,964 yn ymddangos yng nghostau gweithgareddau'r elusen. Cronfa yma wedi dod i ben 31/3/25.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Derbyniwyd £4,790 o gyllid cyfyngedig ar gyfer cyflogi Swyddog Ieuenctid hyd at Medi 2026. Mae'r £2,197 yn ymddangos yng nghostau cyflogau'r elusen.

Grant Cymorth Ieuenctid Cyngor Gwynedd
Derbyniwyd £2,000 o gyllid cyfyngedig ar gyfer cynnal clwb ar gyfer Pobl Ifanc hyd at Mawrth 2026. Mae'r £2,000 yn ymddangos yng nghostau gweithgareddau'r elusen.

Heddlu Gogledd Cymru
Derbyniwyd £500 o gyllid cyfyngedig ar gyfer creu gwaith celf ar gyfer Pobl Ifanc hyd at Mawrth 2026. Mae'r £500 yn ymddangos yng nghostau gweithgareddau'r elusen. Hefyd, derbyniwyd £2,000 tuag at gynllun swper ar ôl ysgol i blant 11-16 oed o Medi 2025 hyd at Rhagfyr 2025.

Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain
Derbyniwyd £500 o gyllid cyfyngedig gan y Gymdeithas i gynnal dau o weithgareddau gwyddonol yn ystod Wythnos Gwyddoniaeth ym mis Mawrth 2025. Mae'r gost o £500 yn ymddangos yng nghostau gweithgareddau'r elusen. Wedi dod i ben 31/3/25.

Comic Relief – WCVA
Derbyniwyd 90% o £34,880 ar gyfer penodi Swyddog Ymchwil a Datblygu am flwyddyn. Mae'r gost o £23,968 yn ymddangos yng nghostau cyflogau'r elusen.

Grant Gwirfoddolwyr Cymru – WCVA
Derbyniwyd £29,160 o gyllid ar gyfer penodi Swyddog Gwirfoddolwyr. Cynllun dwy flynedd yw hwn gyda £29,980 i ddod yn 2026/7.

Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Loteri
Derbyniwyd 90% o £15,000 ar gyfer cynllun Celf, Lles a Iechyd – Cymuned Greadigol.

Grant Côd Post Loteri
Derbyniwyd £25,000 o arian anghyfyngedig tuag at gostau craidd Porthi Dre.

Grant Hwb Caernarfon
Derbyniwyd tri grant yn ystod y flwyddyn - £500 tuag at adnewyddu goleuadau mewnol, £450 tuag at weithgareddau pobl ifanc dros wyliau'r haf, £6,160 tuag at redeg clwb pobl ifanc o Ebrill 2026 ymlaen.

CIST Gwynedd
Derbyniwyd £6,000 tuag at greu Cynllun Busnes, mentora staff a dogfennau ar gyfer gwaith ymgysylltu gyda'r cyhoedd.

Grant Diwyllesiant
Derbyniwyd £4,000 tuag at brosiect celf i oedolion. Mae'r holl gostau yn ymddangos yng nghostau gweithgareddau'r elusen.

Nodiadau ar y datganiadau ariannol *am y flwyddyn i'r 31 Mawrth 2026 (Ymlaen)*

16. Datganiad o Weithgareddau Ariannol y Flwyddyn Flaenorol

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2024
			£	£	£
Incwm					
Rhoddion a chymynroddion		7,417	-	7,417	13,090
Gweithgareddau elusennol	*3*	106,631	86,279	192,910	99,543
Incwm buddsoddiadol	*4*	19,485	-	19,485	13,465
Incwm arall: Cronfeydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2023	*5*	-	-	-	93,415
Cyfanswm		133,533	86,279	219,812	219,513
Gwariant ar:					
Gweithgareddau elusennol	6	107,543	68,039	175,582	111,921
Cyfanswm gwariant am y flwyddyn		107,543	68,039	175,582	111,921
Incwm net am y flwyddyn		25,990	18,240	44,230	107,592
Balans ar 1af Ebrill 2024		102,592	5,000	107,592	-
Balans ar 31 Mawrth 2025		£128,582	£23,240	£151,822	£107,592

Mae'r canlyniadau uchod yn deillio o weithgareddau sydd yn parhau. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn wedi eu cynnwys uchod.

16. Datganiad Cronfeydd y Flwyddyn Flaenorol

	1 Ebrill 2024	Incwm £	Gwariant £	31 Mawrth 2025 £
Cronfeydd Anghyfyngedig				
Cronfa gyffredinol	102,592	133,533	(107,543)	128,582
Cronfeydd Cyfyngedig				
Grant Cymorth Costau Byw	3,000	900	(1,701)	2,199
Grant Cymorth Mislif	2,000	800	(2,385)	415
Grant Refeniw Arfor – WAG	-	23,096	(23,096)	-
Grant Cyfalaf Arfor – WAG	-	4,974	(1,243)	3,731
Loteri Genedlaethol - Cronfa Gymunedol	-	15,773	(15,552)	221
Cyngor Gwynedd – Grant Project Bwyd	-	1,360	(1,360)	-
Cyngor Gwynedd - Grant Darpariaeth Pobl Ifanc	-	2,500	(2,500)	-
Grant Grymuso Gwynedd - Refeniw	-	6,053	(6,053)	-
Grant Grymuso Gwynedd – Cyfalaf	-	3,359	(840)	2,519
Heddlu Gogledd Cymru	-	400	(400)	-
Heddlu Gogledd Cymru Grant C & C	-	5,000	(5,000)	-
Adra – Cronfa Buddsoddi Cymunedol	-	1,000	(445)	555
Menter Môn Cylchol & HWB	-	14,088	(488)	13,600
Cyngor Gwynedd – Grant Croeso Cynnes	-	3,000	(3,000)	-
Cyngor Gwynedd – Grant Degwm	-	2,976	(2,976)	-
Grŵp Cynefin	-	500	(500)	-
Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain	-	500	(500)	-
	5,000	86,279	(68,039)	23,240
Cyfanswm	**£107,592**	**£219,812**	**(£175,582)**	**£151,822**